Taith Arfordirol – 5 milltir
Bae Rhosili, De Cymru

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST
Supported by RIAS

Mwynhewch olygfeydd arfordirol ardderchog o Ros Rhosili cyn disgyn i Fae Rhosili. A ystyrir yn un o'r traethau tywod gorau yn y DU. Ym mhen deheuol y bae, pan fydd y llanw allan, mae hyd o graig carreg galch yn arwain at Worms Head lle gellir gweld adar y môr a morloi.

Cychwyn: Canolfan Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Rhosili – cyf. grid: SS415879 – OS Landranger map 159

Sut i fynd yno a chyfleusterau lleol

Ar drwyn De Gorllewinol Penrhyn Gŵyr. Dod o Abertawe via A4118, yna'r B4247. Mae yna fws rheolaidd o Abertawe, sy'n pasio ger y . Parcio ceir a thoiledau (nid yr YG) wrth ymyl y ganolfan ymwelwyr. Bythynnod gwyliau'r YG, a lluniaeth a YHA ym mhentref Rhosili.

Cadwch lygad am…

Ros Rhosili
Yn gefndir i Fae Rhosili mae'r rhostir yma sy'n codi dros 600tr o'r lan. Ar y top ar ddiwrnod clir gallwch weld yr holl ffordd ar draws Bae Bryste ac i Sir Benfro.

Archaeoleg
Mae yna safleoedd claddu'r Oes Efydd a siambrau claddu Neolithig wedi eu gwasgaru ar Ros Rhosili. Yn dwyn yr enw Sweyne's Howes, credir fod y safleoedd hyn o oes y cerrig wedi cael eu henwi ar ôl Sweyne, arglwydd rhyfel Llychlynnaidd, er eu bod o leiaf 3,000 o flynyddoedd yn hŷn na'r Llychlynwyr.

Bae Rhosili
Bydd cerddwyr, teuluoedd a brigdonwyr yn mwynhau'r bae cysefin tywodlyd hwn sy'n dair milltir o hyd, ond anaml y bydd yn orlawn. Pan fydd y llanw'n cilio yn y pen deheuol, datgelir gweddillion sgerbydol llongddrylliad Helvetia. Daeth y llong i'r lan un noson aeafol yn 1887.

Worms Head
Mae sarn llanw'n cysylltu'r talp hwn o graig â'r tir mawr. Defnyddiwyd Worms Head unwaith i bori defaid. Roedd y cig o'r ardal hon yn arbennig o boblogaidd, dywedwyd ei fod yn frau oherwydd y gwair hallt.

Gwylan goesddu'n gorffwyso ar ochr clogwyn. Fe'u hadnabyddir oddi wrth eu maint bychan, pen crwn a phwyntiau du eu hadennydd. Bydd y cywion yn deor yn hwyr yn yr haf a gellir eu gweld yn Worms Head.

© NTPL / Joe Cornish

Mae traeth Rhosili'n ymestyn i'r gorwel. I'r dde mae Rhos Rhosili sydd dan gwrlid o redyn, eithin, gweiriau a grug. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am 75% o forlin Penrhyn Gŵyr.

© NTPL / Joe Cornish

Cregyn gleision, cregyn llygad maharen a chrancod yn Worms Head. Mae llawer o gyliau a holltau yn y garreg galch yma, yn berffaith ar gyfer fforio mewn pyllau glan môr. Cadwch lygad am wymon y môr, anemone'r môr, cranc a'r seren glustog fechan (sydd ond i'w cael mewn dyrnaid o safleoedd yn y DU) ar drai.

Lleoedd yr Ymddiriedolaeth i ymweld â nhw gerllaw

Whiteford Burrows, Three Cliffs Bay, Pennard Cliffs, Bishopston Valley

Y daith a chyfarwyddiadau

1. Cychwyn yng Nghanolfan Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a cherdded dros Ros Rhosili. Darganfuwyd llawer o safleoedd yr Oes Efydd ar y pwyntiau uchaf. Mae'r Fan yn nodi'r top lle mae yna olygfeydd di-dor i bob cyfeiriad.

2. Dilynwch y llwybr tuag at Hillend.

3. Trowch yn ôl a chymryd y llwybr i'r dde sy'n arwain at draeth Rhosili. Yma, ym mhen deheuol y bae, mae twyni tywod o'r enw Y Warren.

   Roedd yna dai ac eglwys yma unwaith, ond dros amser cawsant eu gadael ac fe'u claddwyd gan y tywod. Mae'r 'pentref coll' hwn yn dyddio'n ôl i'r amser cyn y Normaniaid.

4. Cerddwch ar hyd y traeth ac yn ôl i'r Ganolfan Ymwelwyr. Bythynnod ceidwaid y glannau oedd y rhes o dri adeilad. Mae un yn siop yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sydd wedi ei hailwampio'n ddiweddar.

5. I ymestyn y daith hon, ewch ymlaen i Worms Head. Ewch ar y llwybr ar hyd y pentir ac yna disgynnwch i lefel y môr. Pan fydd y llanw ar drai mae'n bosib cerdded dros y sarn i'r ynys hon heb wlychu'ch traed. Byddwch yn ofalus o amseroedd y llanw gan mai ond rhyw ddwy awr sydd yna bob ochr i'r trai.

   Gallwch weld sut y cafodd ei enw gwreiddiol 'Wurm', sef draig, wrth iddi godi o'r môr fel anghenfil chwedlonol. Yma gallwch weld caer o'r Oes Haearn ar ochr y clogwyn yn ogystal â llawer o adar y môr a bwa o graig naturiol o'r enw Pont y Diafol.

6. Dychwelwch yr un ffordd neu fynd ar y llwybr sy'n arwain yn ôl i'r Ganolfan Ymwelwyr.

Pellter, tirwedd a hygyrchedd

Taith gylchol 5 milltir(8km). Ar y gwastad gan fwyaf ond mae yna beth dringo serth. Dim camfeydd; dim ond gatiau i gerddwyr. Grisiau o'r traeth i'r maes parcio. Nodwch amseroedd y llanw yn y Ganolfan Ymwelwyr cyn croesi i Worms Head. Byddwch yn ofalus wrth ymyl y clogwyni.



© Atgynhyrchwyd drwy ganiatad caredig Ordnance Survey.
Cedwir pob hawl.
Rhif trwydded OS AL 100018591

Fel elusen sy'n annibynnol ar y llywodraeth, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dibynnu ar haelioni ei chefnogwyr i barhau i ofalu am ein cefn gwlad a'n bywyd gwyllt fel y gall pawb fwynhau harddwch yr awyr agored am genedlaegthau i ddod

Darganfyddwch fwy: www.nationaltrust.org.uk